## PWYLLGOR CRAFFU
## DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

**2ail Hydref 2017**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd J.D. James (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** A. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, S.J.G. Gilasbey, T.M. Higgins, A. James, T.A.J. Davies, A. Vaughan Owen, B.D.J. Phillips, J.S. Phillips, D. Thomas, H.A.L. Evans a P.M. Hughes.

Y Cynghorydd K.V. Broom – yn lle'r Cynghorydd A.D.T. Speake;
Y Cynghorydd J.G. Prosser – yn lle'r Cynghorydd A. Fox.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd H.A.L. Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Amgylchedd;
Y Cynghorydd P.M. Hughes, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Pilliner, Pennaeth Priffyrdd a Thrafnidiaeth;
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff;
S.E. Watts, Rheolwr Diogelu'r Amgylchedd;
A. Maynard, Rheolwr Cymunedol a Diogelu;
J. Edwards, Pen-swyddog Busnes a Datblygu;
R. James, Cyfrifydd Grŵp;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin – 10:00am - 11:10am**

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Fox ac A.D.T. Speake.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod(ion) | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| T.M. Higgins | 5 - Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd 2016/17 | Mae ei brawd yn gweithio i Valero |
| K.V. Broom | 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) | Mae ei gŵr yn gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru |
| A. James | 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) | Yn berchen ar dir y mae llwybr troed cyhoeddus yn ei groesi |
| K.V. Broom | 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) | Yn berchen ar dir y mae llwybr troed cyhoeddus yn ei groesi |
| B.D.J. Phillips | 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) | Yn berchen ar dir y mae llwybr troed cyhoeddus yn ei groesi |
| J.A. Davies | 10 - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) | Yn berchen ar dir y mae llwybr troed cyhoeddus yn ei groesi |

## 3. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 4. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD ADRODDIAD BLYNYDDOL 2016/17

[Sylwer: Roedd y Cynghorydd T. Higgins wedi datgan buddiant personol ond arhosodd yn ei sedd drwy gydol y drafodaeth a gafwyd wrth ystyried yr eitem hon].

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ar ei waith yn ystod blwyddyn y cyngor 2016/17, a oedd wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor Sir.

Roedd yr adroddiad yn bwrw golwg gyffredinol ar y rhaglen waith a'r materion allweddol yr oedd y Pwyllgor wedi eu hystyried. Hefyd roedd yr adroddiad yn manylu ar y materion oedd wedi'u cyfeirio at neu gan y Bwrdd Gweithredol, sesiynau datblygu oedd wedi'u cynnal i'r Aelodau, yn ogystal â'u presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

Cymerodd yr aelodau'r cyfle i holi ynglŷn â chynnydd yr eitemau craffu yn yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i ymholiad a gafwyd ynglŷn ag Adolygu'r Prosiect Newid i Oleuadau LED, rhoddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wybod i'r Pwyllgor y byddai adolygiad prosiect pellach yn cael ei gynnal yn agos at gwblhau Cam 2 ac, yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor, y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei ddarparu ym mis Mawrth 2018.

- Cyfeiriwyd at bryder a godwyd o fewn yr eitem yn ymwneud â Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd y pryder yn ymwneud â'r effaith y mae'r oedi mewn torri ymylon ffyrdd a chloddiau yn ei chael ar ddiogelwch a chodwyd hyn fel problem barhaus sy'n wynebu cymunedau gwledig. Rhoddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wybod i'r Pwyllgor fod gwaith torri ymylon ffyrdd a chloddiau 'ad hoc' yn cael ei wneud, yn ychwanegol i'r rhaglen dorri flynyddol, yn dilyn archwiliadau a gynhaliwyd gan y Swyddogion Priffyrdd os oedd yna broblemau gweledig wrth gyffyrdd.
  Darparwyd enghreifftiau o faterion lleol i'r Swyddogion lle nad oedd cloddiau wedi cael eu torri ac a oedd o ganlyniad yn peri problemau gwelededd. Ailadroddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod rhaglen glir ar waith i dorri cloddiau ac ymylon ffyrdd mewn ardaloedd gwledig yn flynyddol, y dylai'r contractwyr fod yn cadw ati. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r Swyddogion yn edrych ymhellach i'r mater.

  Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod y Pwyllgor wedi awgrymu bod y mater hwn yn cael ei wneud yn destun adolygiad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen.

- Cyfeiriwyd at yr achos o Ollwng Olew Cerosin, Nant-y-caws, Caerfyrddin – mis Hydref 2016. Mewn ymateb i sylw a wnaed ynglŷn â'r effaith ar goed yn yr ardal lle cafodd yr olew Cerosin ei ollwng, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd nad oedd hi'n ymwybodol o unrhyw effaith ar goed. Cytunwyd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei ddarparu i'r Swyddog.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 6. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD AR GYFER 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2017/18, a ddatblygwyd yn dilyn sesiwn gynllunio anffurfiol y Pwyllgor a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** gan y Pwyllgor gymeradwyo'i Flaenraglen Waith ar gyfer 2017/18.

## 7. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD AMCANION LLESIANT 2017/18

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed gogyfer â'r camau gweithredu a'r mesurau yng nghynllun cyflawni Amcanion Llesiant 2017/18 a oedd yn berthnasol i faes gorchwyl y Pwyllgor, fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2017.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y cam gweithredu, 'Byddwn yn helpu pobl hŷn i gyfrannu at ailgylchu drwy'r *cynllun 'cymorth codi' ar gyfer pobl nad ydynt yn gallu mynd â gwastraff i ymyl y ffordd*.' Gofynnwyd sut oedd y cam gweithred hwn yn cael ei farchnata er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn. Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wybod i'r Pwyllgor fod gwybodaeth am y gwasanaeth hwn i'w chael yn y dogfennau atodol gan Weithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol, yn ogystal â bod y gwasanaeth yn cael ei hysbysebu ar Wefan y Cyngor. Mewn ymateb i ymholiad ychwanegol, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff fod yna tua 1,300 o gynlluniau cymorth codi ar waith ledled y Sir ar hyn o bryd.

- Cyfeiriwyd at y cam gweithredu gyda golwg ar '*arolygu priffyrdd, llwybrau troed a seilwaith goleuadau yn rheolaidd i nodi unrhyw ddiffygion sy'n peri perygl i'r cyhoedd*'. Holwyd a fyddai modd darparu mwy o fanylion am y mater hwn. Y farn oedd y byddai cael mwy o fanylion o fudd i'r Cynghorwyr wrth i ymholiadau o'r fath ddod i'w rhan. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd na fyddai'n bosibl rhoi gwybod i'r Aelodau am bob atgyweiriad oherwydd graddfa'r gwaith a wneir ar draws y Sir bob dydd. Fodd bynnag, byddai'n rhoi manylion pellach i'r Aelod Lleol y tu allan i'r cyfarfod.

- Gofynnwyd am eglurhad ynghylch cyfrifoldeb pwy yw clirio priffordd ar ôl achos o halogi. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd mai cyfrifoldeb y person neu'r sefydliad a halogodd y briffordd fyddai ei chlirio. Mewn ymateb i ymholiad a gafwyd ynghylch nifer y peiriannau ysgubo ffyrdd sy'n weithredol o fewn y fflyd ar hyn o bryd, pwysleisiodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd nad oedd y fflyd peiriannau ysgubo ffyrdd wedi cael ei lleihau yn y ddwy flynedd diwethaf ac ychwanegodd nad oedd yna unrhyw newidiadau diweddar wedi bod mewn polisi.

- Mewn perthynas â'r cam gweithredu a oedd yn dweud 'Byddwn yn cynyddu faint o ynni a gynhyrchir o dechnolegau adnewyddadwy (kWh)' holwyd a oedd targed wedi'i osod? Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd fod y Cyngor yn ystyried cynyddu nifer y paneli solar, yn enwedig ar safleoedd y Cyngor. Cyfeiriwyd at yr adroddiad o fewn Eitem 10 ar yr Agenda - Adroddiad Blynyddol Drafft Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2016/17, a oedd yn dweud bod y defnydd o ynni adnewyddadwy ar gyfer 2016/17 yn 670,400 kWh. Dywedwyd bod y swm hwn yn cynrychioli ychydig dros 0.9% o gyfanswm yr ynni a ddefnyddiwyd ac ystyrid ei fod yn lefel isel iawn o ynni adnewyddadwy, felly gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â'r hyn oedd targed y Cyngor ar gyfer ynni adnewyddadwy. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod y Cyngor ar hyn o bryd yn prynu ynni oddi wrth gyflenwyr ynni gwyrdd ac y byddai gwybodaeth am ymholiadau pellach yn cael ei rhannu â'r Pwyllgor maes o law.

- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag ynni gwyrdd, dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff y byddai adroddiad diweddaru yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2018 yn unol â Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor fod y cynllun wedi cael ei lansio'n llwyddiannus a bod ganddo 2,500 o gwsmeriaid hyd yma.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn a nodi'r adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2017/18

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf mewn perthynas â gwasanaethau'r Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a Diogelwch Cymunedol a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ddiweddaraf fel yr oedd ar 30 Mehefin, 2017, gyda golwg ar flwyddyn ariannol 2017/18.

Nododd y Pwyllgor fod gwasanaethau'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd yn rhagweld gorwariant o £130k o ran y gyllideb refeniw ac y byddai yna £2,479 o amrywiant net yn erbyn y gyllideb gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2017/18.

Cyflwynwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol ar yr adroddiad:-

- Cyflwynwyd sylw i'r Gwasanaethau Gwastraff ac roedd swm yr arbedion a wnaethpwyd yn deillio o gau canolfan ailgylchu gwastraff cartref Llangadog.

- Cyfeiriwyd at yr amnest gwastraff a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llangadog. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y bobl leol yn siomedig â'r modd y trefnwyd yr amnest, a arweiniodd at giwiau hir o gerbydau ac amserau aros maith.

  Atgoffodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd y Pwyllgor fod gan y Cyngor nifer o ddarpariaethau ar waith ar gyfer ailgylchu ac roedd yn annog y Cynghorwyr i roi gwybod i bobl yn eu hardaloedd am y trefniadau ailgylchu presennol sydd ar gael iddynt.

  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff wrth y Pwyllgor mai hwn oedd y trydydd amnest gwastraff i gael ei gynnal yn ardal Llandovery/Llangadog, a bod yr amnest diweddar hwn wedi cael ymateb na welwyd ei fath o'r blaen. Ymhellach, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol er mwyn mesur yr awydd am gael amnestau gwastraff yn y dyfodol.

- Gofynnwyd pam oedd yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn dangos ac yn rhagfynegi tanwariant ac a oedd hyn o ganlyniad i brinder staff o fewn yr adran honno? Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod nifer o newidiadau wedi digwydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf; fodd bynnag, ar y pryd roedd gan yr adran Hawliau Tramwy 5 aelod o staff.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN 2016/17 - DRAFFT

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyngor ar gyfer 2016/17 a oedd yn cynnwys adroddiad cynnydd yr ail flwyddyn ar Strategaeth Gorfforaethol 2015-20, y Crynodeb o Adroddiad Blynyddol 2016/17 a'r Adroddiad Blynyddol llawn.

Pan gyhoeddwyd y Strategaeth Gorfforaethol yn 2015/20 cytunwyd y byddai adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei gynhyrchu a fyddai'n pennu 24 o fesurau canlyniadau er mwyn barnu ein cynnydd yn eu herbyn. Byddai'r Strategaeth Gorfforaethol yn cael ei hadolygu ar gyfer 2018/19 gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod ein Hamcanion Llesiant yn cael eu cynnwys yn y Strategaeth Gorfforaethol.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i gais am y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â llwybr beicio o Hendy-gwyn ar Daf i Langlydwen a llwybr troed rhwng Login a Llanglydwen, dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd nad oedd gan y Cyngor Sir unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r llwybr hwn. Fodd bynnag, credai fod yna grŵp gwirfoddol yn edrych ar brosiect yn yr ardal, byddai'n gwneud ymholiadau pellach a chytunodd y byddai'n rhoi ymateb i'r Cynghorydd.

- Cyfeiriwyd at dudalen 28 yr adroddiad lle codwyd ymholiad ynglŷn â'r tabl a ddangosai'r defnydd o ynni, y gost a'r allyriadau $CO_2$ o flwyddyn i flwyddyn. Roedd y tabl yn dweud nad oedd cyfanswm y data 'ar gael tan fis Medi', holwyd pryd y byddai'r data ar gael gan ei bod hi bellach yn fis Hydref. Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd wybod i'r Pwyllgor y byddai hi'n anfon y wybodaeth ymlaen i'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddai'r data ar gael.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL fod yr Adroddiad Blynyddol drafft, yn cynnwys Adroddiad Cynnydd yr Ail Flwyddyn ar y Strategaeth Gorfforaethol, yn cael ei dderbyn.**

## 10. CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY SIR GAERFYRDDIN

[Sylwer: Roedd y Cynghorwyr A. James, K. Broom, A. Davies a D. Phillips wedi datgan buddiant personol ond gwnaethant aros yn eu seddi drwy gydol y drafodaeth a gafwyd wrth ystyried yr eitem hon].

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin (CGHT) a oedd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran adolygu'r ddogfen bolisi deng mlynedd bresennol a'r newidiadau a gynigir ar ei chyfer - Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2007-2017.

Nododd y Pwyllgor fod Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin 2007-2017 wedi'i gyhoeddi yn 2007 ac felly bod angen ei adolygu. Ymhellach, er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r canllawiau perthnasol, dylid gallu cyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig ar gyfer y Sir erbyn mis Ionawr 2018.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/cwestiynau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Codwyd y mater fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio camerâu wrth gerdded ar hyd llwybrau cerdded a llwybrau arfordirol er mwyn gallu cael gwybodaeth. Dywedodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd ei fod yn ymwybodol fod camerâu wedi'u defnyddio i wneud arolwg o'r llwybrau ac ychwanegodd fod yr Adran yn awyddus i fanteisio ar y dechnoleg hon. Er enghraifft, gellid defnyddio arolygon drôn i helpu yn y dyfodol.

- Mewn ymateb i ymholiad a godwyd, rhoddodd y Pennaeth Trafnidiaeth a Phriffyrdd wybod i'r Pwyllgor y byddai'r Swyddogion yn ymchwilio i unrhyw rwystrau i Hawliau Tramwy. Fodd bynnag, ar hyn o bryd roedd yna ôl-groniad o achosion yn ymwneud â rhwystrau, a all olygu prosesau cyfreithiol hirfaith i'w datrys.

**CYTUNWYD YN UNFRYDOL i nodi'r cynnydd ar wnaed o ran Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Sir Gaerfyrddin.**

11. **EGLURHAD AM BEIDIO A CHYFLWYDNO ADDRODIAD CRAFFU**

Nododd y Pwyllgor nad oedd yr adroddiad ar y Strategaeth Barcio wedi cael ei gyflwyno. Esboniodd y Swyddog Trafnidiaeth a Phriffyrdd fod yr adroddiad hwn wedi'i ohirio oherwydd natur yr adolygiad a'r mewnbwn arbenigol allanol a'r data a ddadansoddwyd, ac mai'r dyddiad cyflwyno diwygiedig oedd mis Rhagfyr 2017.

**Penderfynwyd:**

**11.1 Nodi'r ffaith na chyflwynwyd yr adroddiad;**
**11.2 Bod adroddiad y Strategaeth Barcio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2017.**

12. **EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL**

Wrth ystyried y materion ar gyfer y dyfodol, gofynnodd y Cadeirydd a oedd yna unrhyw faterion/meysydd/problemau yr hoffai'r Pwyllgor eu gweld yn cael eu hadrodd yn yr adroddiadau ar gyfer y dyfodol, ac os felly y dylid eu codi o fewn yr eitem hon ar yr Agenda.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar ddydd Gwener, 17 Tachwedd, 2017.**

13. **LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALWYD AR Y 21AIN EBRILL, 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu - Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd a gynhaliwyd ar 21 Ebrill, 2017 yn gofnod cywir.**

________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**